Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Clywedog
# Ffordd Rhuthun
# Wrecsam
# LL13 7UB

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 26/03/2013**

## Cyd-destun

Ysgol gyfun gymysg cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 11 i 16 oed yw Ysgol Clywedog. Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r ysgol yng ngorllewin Wrecsam a daw'r disgyblion o bentrefi i'r gogledd a'r gorllewin o'r dref yn ogystal ag o'r dref ei hun. Mae nifer y disgyblion wedi gostwng o 1,032 adeg yr arolygiad diwethaf, i 883 o ddisgyblion.

Mae tua 22% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae hynny'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.4%. Mae tua 20% o'r disgyblion yn byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae'r disgyblion sy'n mynd i mewn i'r ysgol yn cynrychioli'r ystod gallu llawn, ac mae angen addysgol arbennig gan ryw 13% ohonynt. Mae'r ffigur hwn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 18.6%. Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth ag adnoddau ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu penodol a chymedrol, ac mae datganiadau o anghenion addysgol arbennig gan ryw 2% o'r disgyblion. Mae'r ffigur hwn ychydig yn is na'r cyfartaledd 2.6% ar gyfer Cymru gyfan.

Mae tua 75 yn fwy o fechgyn na merched yn yr ysgol. Mae ychydig o ddisgyblion yn cael cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol, a daw ychydig iawn o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae llai nag 1% o'r dysgwyr yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu i safon gyfwerth.

Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd ym Medi 2012, a dechreuodd dirprwy bennaeth newydd yn Ionawr 2013.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Clywedog yn 2012-2013 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,502 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Wrecsam yw £4,871 a'r lleiafswm yw £4,182. Mae Ysgol Clywedog yn y chweched safle o'r naw o ysgolion uwchradd yn Wrecsam o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Anfoddhaol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Anfoddhaol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r nodweddion da ym mherfformiad presennol yr ysgol yn cynnwys:

- mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- mae mwyafrif y disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol ac o amgylch yr ysgol;
- caiff cymorth da ei roi i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol; ac
- mae nifer y disgyblion sy'n gadael yr ysgol yn 16 oed ac yr adroddir amdanynt fel pobl ifanc sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn cymharu'n ffafriol â ffigurau cenedlaethol.

Fodd bynnag, bernir bod perfformiad presennol yn anfoddhaol oherwydd:

- mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 4 yn ymhell islaw'r disgwyliadau yn gyffredinol, yn enwedig o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg;
- mae gormod o ddisgyblion heb ddatblygu'u darllen a'u hysgrifennu'n ddigon da i gefnogi'u dysgu ar draws y cwricwlwm;
- nid yw tua hanner yr addysgu'n ddigon da;
- nid yw rhyw hanner y disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu dysgu;
- nid yw gwybodaeth asesu'n cael ei defnyddio'n effeithiol i fonitro cynnydd disgyblion neu i gynorthwyo disgyblion yn eu dysgu; ac
- mae ffigurau presenoldeb islaw'r disgwyliadau.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn anfoddhaol oherwydd:

- nid yw'r tîm arweinyddiaeth newydd wedi cael digon o effaith ar feysydd allweddol eto, yn enwedig safonau ac addysgu;
- mae gormod o amrywio yn ansawdd yr arweinyddiaeth ar lefel uwch;
- nid yw mwyafrif y rheolwyr canol wedi cael digon o effaith ar godi safonau;
- mae'r ysgol wedi pennu cyllideb ddiffyg o ryw £68,000 ar gyfer y flwyddyn gyfredol, ac mae'n rhagweld diffyg sylweddol dros y ddwy flynedd nesaf; ac
- nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd o ran mynd i'r afael â bron pob un o'r argymhellion o'r adroddiad arolygu diwethaf.

## Argymhellion

A1 Gwella safonau yng nghyfnod allweddol 4

A2 Gwella ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol

A3 Gwella trylwyrder a chadernid yr asesu ar draws yr ysgol a sicrhau ei fod yn llywio’r dysgu

A4 Datblygu medrau ysgrifennu’r disgyblion ar draws y cwricwlwm

A5 Datblygu rôl yr arweinwyr canol i sicrhau bod hunanarfarnu a chynlluniau datblygu yn effeithio ar gynnydd disgyblion

A6 Sicrhau bod y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4 yn galluogi disgyblion i ddilyn cyrsiau priodol sy’n cyfateb i’w gallu

A7 Gwella cyfraddau presenoldeb a lleihau nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol

A8 Datblygu rôl y corff llywodraethol fel y gall pob llywodraethwr herio tanberfformio’n effeithiol

A9 Gweithio gyda’r awdurdod lleol i leihau’r gyllideb ddiffyg

A10 Codi safonau ymhellach mewn Cymareg a mynd i’r afael â’r materion yn ei darpariaeth

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o’r farn bod angen rhoi mesurau arbennig ar waith mewn perthynas â’r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Safonau: Anfoddhaol**

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion dros y pedair blynedd diwethaf wedi bod ymhell islaw perfformiad ysgolion tebyg. Yn bwysig, mae perfformiad yn y dangosydd pwysig sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg wedi bod ymhell islaw disgwyliadau wedi'u modelu dros y ddwy flynedd diwethaf, ac mae wedi dirywio dros y tair blynedd diwethaf. Mae perfformiad mewn mathemateg fwy neu lai yr un fath â chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir mewn Saesneg a gwyddoniaeth, lle mae perfformiad ymhell islaw perfformiad yr ysgolion tebyg hyn. Yng nghyfnod allweddol 4, mae bechgyn a merched wedi tanberfformio yn y rhan fwyaf o'r prif ddangosyddion. Fodd bynnag, mae bechgyn wedi tanberfformio i raddau mwy. Mae perfformiad bechgyn wedi dirywio dros y pum mlynedd diwethaf. Nid yw'r disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim wedi perfformio'n dda yn yr ysgol. Mae cynnydd disgyblion o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 4 yn wael yn y rhan fwyaf o ddangosyddion.

Yng nghyfnod allweddol 3, fe wnaeth perfformiad mewn Saesneg, gwyddoniaeth a'r dangosydd pwnc craidd ddirywio yn 2012, ac erbyn hyn mae islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg. Mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched yn y rhan fwyaf o'r prif ddangosyddion yn llai nag mewn ysgolion tebyg. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir mewn Saesneg, lle mae perfformiad bechgyn yn wannach o lawer, yn enwedig eu medrau ysgrifennu. Mae cynnydd disgyblion o'r cyfnod allweddol blaenorol fwy neu lai'n unol â'r disgwyliadau, er bod bechgyn mwy galluog yn gwneud llai o gynnydd. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn dod i mewn i'r ysgol ym Mlwyddyn 7 heb y medrau darllen angenrheidiol i ddilyn y cwricwlwm yn llwyddiannus. Dim ond ychydig o'r disgyblion hyn sy'n gwneud cynnydd da erbyn diwedd Blwyddyn 9.

Mae nifer y disgyblion sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster wedi cynyddu, ac yn 2011-2012 roedd yn waeth na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae cyfran y disgyblion sy'n aros ymlaen mewn addysg amser llawn ar ôl Blwyddyn 11 yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Adroddir bod ychydig o ddisgyblion a adawodd yr ysgol yn 16 oed heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae'r ffigur hwn yn well na'r cyfartaledd ar gyfer yr awdurdod lleol a chyfartaledd Cymru.

Mewn lleiafrif o wersi, mae disgyblion yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth sicr o destunau newydd, ac yn datblygu medrau priodol. Maent yn gweithio drwy eu tasgau ar gyflymder addas ac yn cynhyrchu gwaith o safon dda. Yn y gwersi hyn mae mwyafrif y disgyblion yn dangos gafael medrus ar gysyniadau pwnc allweddol, ac yn cymhwyso'u dealltwriaeth yn dda i sefyllfaoedd newydd ac anghyfarwydd. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y gwersi hyn yn cofio cynnwys eu gwaith yn dda.

Mewn ychydig o wersi, mae'r disgyblion yn ymateb yn dda iawn i weithgareddau heriol ac yn datblygu dealltwriaeth dda iawn o'u gwaith. Fodd bynnag, mewn dros

hanner y gwersi, nid yw'r disgyblion, y rhai mwyaf galluog yn aml, yn gwneud gymaint o gynnydd ag y dylent am nad yw'r gweithgareddau'n cyfateb yn ddigon da i'w gallu. O ganlyniad, dealltwriaeth gyfyngedig neu anghyflawn sydd ganddynt o'u gwaith.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn effeithiol i athrawon a chyfoedion, gan adeiladu ar sylwadau ei gilydd mewn trafodaethau dosbarth. Mae'r disgyblion yn siarad yn glir ac yn hyderus. Fodd bynnag, ymatebion cyfyngedig y mae lleiafrif o ddisgyblion yn eu darparu mewn trafodaethau dosbarth. Nid oes rhugldder a hyder gan y disgyblion yn eu siarad, ac nid ydynt yn cyfrannu'n barod at drafodaethau bob amser. Mae mwyafrif y disgyblion yn deall y rhan fwyaf o'r hyn maent yn ei ddarllen. Ond strategaethau dysgu cyfyngedig sydd gan leiafrif o ddisgyblion, fodd bynnag, i fynd i'r afael â thestunau mwy heriol. Mae tua hanner y disgyblion yn arfarnu ac yn dadansoddi gwybodaeth yn dda, a gallant esbonio a rhoi cyfiawnhad dros eu hymatebion. Mewn ychydig o bynciau, fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn cyfosod gwybodaeth allweddol o ffynonellau gwahanol, ond maent yn dibynnu'n fawr ar gopïo gwybodaeth o lyfrau.

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu darnau estynedig o ansawdd da at ddibenion a chynulleidfaoedd gwahanol. Defnyddir ystod eang o eirfa benodol i bwnc yn briodol gan ryw hanner y disgyblion i ddisgrifio agweddau allweddol ar waith o fewn pynciau. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mwyaf galluog, yn ysgrifennu darnau estynedig yn dda, ac yn aml maent yn cynhyrchu gwaith o ansawdd cyfyngedig. Nid yw dros hanner y disgyblion yn sillafu geiriau allweddol yn gywir, ac mae lleiafrif yn gwneud camgymeriadau atalnodi sylfaenol.

Mae perfformiad wedi gwella'n raddol mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 3, ac mae'n debyg i gyfartaledd y teulu. Yng nghyfnod allweddol 4, mae llawer o ddisgyblion yn dilyn cymhwyster mewn Cymraeg ail iaith, ac mae tua hanner y disgyblion hyn yn cyflawni cymhwyster lefel 2. Nifer isel iawn o ddisgyblion sy'n dilyn cwrs llawn Cymraeg ail iaith, er bod y rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, yn y ddau gyfnod allweddol, cynnydd araf mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ei wneud, ac mae safon eu gwaith yn wael yn aml.

**Lles: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae llawer o'r farn fod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio. Mae llawer o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd ffordd iach o fyw a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r cyfraddau cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol yn gadarn. Mae mwyafrif y disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol, ac mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd gwersi a dosbarthiadau cofrestru yn brydlon.

Amrywiol fu'r lefel presenoldeb dros y tair blynedd diwethaf, ac yn 2011-2012 roedd yn is na disgwyliadau. Fodd bynnag, mae ffigurau presenoldeb heb eu dilysu ar gyfer tymor yr hydref yn awgrymu bod y mesurau a gyflwynwyd ers Medi 2012 yn cael effaith gadarnhaol.

Ni fu unrhyw waharddiadau parhaol dros y pum mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol yn parhau'n uchel, er i'r nifer ostwng yn yr hydref 2012.

Mae cyngor yr ysgol yn datblygu'n fforwm mwy gweithredol ac mae wedi cael effaith gadarnhaol ar wella meysydd fel toiledau ac ystafelloedd newid. Yn ddiweddar, mae wedi dylanwadu ar y polisi ymddygiad newydd, ac mae'r disgyblion wedi bod yn gysylltiedig hefyd â phenodi staff. Mae grŵp gweithredu maeth yr ysgol wedi cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth y ffreutur hefyd. Mae lleiafrif o'r disgyblion yn ysgwyddo cyfrifoldebau ehangach, gan weithredu fel swyddogion ym Mlwyddyn 11.

Mae rhaglen ABCh yr ysgol a diwrnodau ffocws arbennig yn cynnig profiadau priodol i'r disgyblion ddatblygu medrau bywyd, ac mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymgymryd â phrofiad gwaith buddiol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Anfoddhaol**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm priodol yng nghyfnod allweddol 3 sy'n bodloni'r gofynion statudol. Fodd bynnag, mae'r cynlluniau i adeiladu ar brofiadau'r disgyblion o gyfnod allweddol 2 yn annigonol. Drwy gydweithredu ag ysgolion lleol a cholegau addysg bellach, mae'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4 yn bodloni'r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru). Fodd bynnag, nid yw'n cynnig ystod eang a chytbwys o brofiadau sy'n diwallu anghenion y disgyblion yn ddigon da.

Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth ddigonol o weithgareddau allgyrsiol priodol.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth llythrennedd da i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, mae'r cynllunio ehangach ar gyfer datblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm yn aneffeithiol. Er gwaethaf gwelliannau diweddar i gryfhau'r ffocws ar ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion, mae'n rhy gynnar i weld yr effaith ar safonau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn foddhaol. Mae'r ysgol yn cynnig ystod briodol o gyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliant Cymru a'r Gymraeg, gan gynnwys Eisteddfod a digwyddiadau ar Ddiwrnod Santes Dwynwen.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddysgu am addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu: Anfoddhaol**

Ceir perthnasoedd da yn y rhan fwyaf o wersi, ac maent yn cyfrannu'n dda at amgylchedd dysgu cadarnhaol.

Mewn tua hanner y gwersi, mae athrawon yn defnyddio gweithgareddau ac adnoddau yn effeithiol i ennyn diddordeb dysgwyr ac ehangu eu dysgu. Caiff y gwersi hyn eu cynllunio'n dda, ac mae gweithgareddau'n adeiladu'n dda ar wybodaeth a dealltwriaeth flaenorol. Mae athrawon yn rhoi amser buddiol i feddwl i ddisgyblion, ac mae hyn yn eu galluogi i ddatblygu ymatebion llawnach. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn defnyddio medrau holi da sy'n profi eu dealltwriaeth ac yn datblygu medrau rhesymu'r disgyblion. Mae athrawon yn darparu ystod eang o weithgareddau i ddisgyblion weithio'n annibynnol a gyda'u cyfoedion. Maent yn cynnal diddordeb ac yn cymell disgyblion yn llwyddiannus.

Nid yw'r addysgu'n effeithiol yn rhyw hanner y gwersi. Nid yw'r gwersi hyn yn cael eu cynllunio'n dda ac mae diffyg strwythur ac amcanion clir ynddynt yn aml. Yn ogystal, nid yw athrawon yn gosod disgwyliadau digon uchel nac yn herio disgyblion yn ddigonol yn y gwersi hyn. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn gwneud y cynnydd y dylent fod yn ei wneud bob amser, ac maent yn colli diddordeb. Yn y gwersi hyn, mae'r cynllunio yn wael i ddatblygu medrau llythrennedd y disgyblion. Nid yw gwaith cartref yn cael ei osod yn gyson ac nid yw tasgau'n ymestyn digon ar ddysgu disgyblion. Mewn ychydig iawn o wersi, nid oes gwybodaeth bynciol briodol gan yr athrawon i gynllunio a chyflwyno gwersi effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn marcio gwaith yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae gormod o amrywio yn ansawdd y marcio. Mewn ychydig o achosion, mae sylwadau'n cynnwys llawer o wybodaeth ac yn cynnig awgrymiadau defnyddiol ar sut i wella. Fodd bynnag, nid yw llawer o sylwadau'n rhoi digon o arweiniad i'r disgyblion ar wella'u gwaith, ac o ganlyniad, anaml y bydd y marcio'n effeithio ar ansawdd gwaith y disgyblion. Yn y rhan fwyaf o bynciau, nid yw'r marcio'n rhoi digon o sylw manwl i ansawdd gwaith ysgrifennu disgyblion, fel cywiro camgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg. Mewn lleiafrif o wersi, mae athrawon yn defnyddio technegau buddiol i helpu disgyblion i asesu'u cynnydd, ond mae hyn yn anghyson ar draws y meysydd pwnc.

Nid yw gwaith arweinwyr yr ysgol i olrhain cynnydd disgyblion wedi'i ddatblygu digon ar hyn o bryd, ac mae'r data asesu a gynhyrchir gan lawer o adrannau yn wan.

Mae adroddiadau ysgrifenedig blynyddol i rieni yn foddhaol. Fodd bynnag, nid yw adroddiadau interim yn rhoi digon o wybodaeth i rieni am gyrhaeddiad, cyflawniad a chynnydd eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

At ei gilydd, mae'r ysgol yn darparu gofal a chymorth o ansawdd addas. Mae'n hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion yn briodol, ac yn ddiweddar mae wedi cryfhau ei systemau ar gyfer monitro presenoldeb.

Mae'r cod ymddygiad newydd a chysylltiadau gwell rhwng rheolwyr canol ac uwch reolwyr sy'n gyfrifol am ymddygiad wedi arwain at ostyngiad yn nifer y digwyddiadau o ymddygiad gwael. Mae strategaethau defnyddiol gan yr ysgol fel y 'Blwch Bwlio' a'r ymgyrch 'dweud wrth rywun' i ddelio â'r ychydig ddigwyddiadau bwlio. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda.

Cynigir rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol eang i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth o faterion. Cyflwynir meysydd fel rhyw a pherthnasoedd a chamddefnyddio sylweddau yn briodol ar y cyd ag asiantaethau allanol. Caiff disgyblion gymorth perthnasol gan anogwyr dysgu. Mae gwasanaethau allanol yn darparu cymorth addas i ddisgyblion ag anghenion mwy cymhleth. Mae tîm cymorth ymddygiad yr ysgol yn darparu help ac arweiniad dibynadwy i'r disgyblion sydd â phroblemau emosiynol neu ymddygiad.

Mae arweiniad anghyson ar ddewisiadau wedi golygu bod lleiafrif o ddisgyblion yn dilyn cyrsiau anaddas yng nghyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, mae'r ysgol wedi gwella ei harweiniad i ddisgyblion sydd ym Mlwyddyn 9 neu islaw ar hyn o bryd.

Cynigir darpariaeth a chymorth da i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ysgol yn gosod targedau realistig i ddisgyblion ac yn darparu cymorth priodol wedi'i deilwra. Mae mwyafrif yr athrawon yn ystyried disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol wrth gynllunio gwersi mewn dosbarthiadau prif ffrwd. Mae cynorthwywyr addysgu yn darparu cymorth effeithiol i'r disgyblion hyn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri unrhyw bryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol lle gall disgyblion gael mynediad at holl feysydd darpariaeth yr ysgol. Rhoddir pwyslais priodol ar gydnabod a pharchu amrywiaeth, ac mae'r disgyblion o ddiwylliannau gwahanol yn cael cymorth addas yn yr ysgol. Mae cynlluniau cydraddoldeb a chynlluniau gweithredu priodol ar waith.

Mae'r adeilad yn helaeth ac yn darparu'n hawdd ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr. Mae mewn cyflwr da yn gyffredinol, a dim ond ychydig o faterion mân oedd i'w gweld, fel carpedi wedi gwisgo ar rai grisiau. Mae'r ysgol yn elwa ar ddefnyddio canolfan chwaraeon ar y safle sydd ag adnoddau da; mae'n cynnwys swît ffitrwydd a phwll nofio. Mae ystafell gyfryngau newydd gan yr ysgol ac mae'n adnodd ychwanegol defnyddiol. Mae'r adeiladau a'r safle yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Yn gyffredinol, mae digon o adnoddau i gynorthwyo'r addysgu a'r dysgu.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Anfoddhaol** |

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Ers penodi'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth newydd, mae'r ysgol wedi cael arweinyddiaeth gref a phwrpasol. Mae gweledigaeth yr arweinwyr hyn yn glir ac yn cynnwys ffocws ar godi safonau. Maent yn cyfleu blaenoriaethau newydd yr ysgol yn effeithiol, ac mae holl aelodau cymuned yr ysgol yn eu deall yn dda. Mae'r ffocws cynyddol ar godi safonau cyflawniad a lles yn amlwg ar draws yr ysgol. Mae rolau uwch arweinwyr wedi'u hailddiffinio ar waith nawr, ac mae'r rhain yn diwallu anghenion yr ysgol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld effaith y trefniadau newydd hyn ar feysydd pwysig fel perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 ac ansawdd yr addysgu.

Mewn ychydig dros dymor, mae'r pennaeth wedi gwneud newidiadau sydd eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad, a gostyngiad yn nifer y gwaharddiadau cyfnod byr. Mae'r cyswllt rhwng uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn gadarnach erbyn hyn. Mae agenda gyffredin nawr ar gyfer cyfarfodydd rheolwyr llinell, sy'n sicrhau mwy o gysondeb yn ffocws y cyfarfodydd hyn. Ar y cyd â'r dirprwy bennaeth, mae'r pennaeth wedi rhoi systemau ar waith i ddatblygu gallu'r arweinyddiaeth ar draws yr ysgol. Erbyn hyn maent yn defnyddio data perfformiad yn fwy trylwyr i osod a monitro targedau mwy heriol.

Mae trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad yn datblygu'n fwy cadarn. Fodd bynnag, mae nifer o ddiffygion pwysig yn yr arweinyddiaeth o hyd. Ar lefel uwch, mae gormod o amrywio yn ansawdd ac effaith rhai arweinwyr. Hefyd, nid yw lleiafrif sylweddol o reolwyr canol yn cynnig cyfeiriad clir ar gyfer eu staff, ac maent wedi bod yn aflwyddiannus i raddau helaeth o ran gwneud a chynnal gwelliannau ym mherfformiad eu meysydd pwnc.

Penodwyd cadeirydd ac is-gadeirydd newydd i'r corff llywodraethol ar ddiwedd tymor yr haf yn 2012. Maent wedi sicrhau mwy o benderfyniad i herio a chynorthwyo'r ysgol i wneud y gwelliannau angenrheidiol. Mae rolau cyswllt ag adrannau gan y llywodraethwyr bellach, ac mae trafod cadarnach ar godi safonau. Fodd bynnag, mae angen mwy o gymorth ar rai llywodraethwyr o hyd i herio'r ysgol yn effeithiol.

Nid yw'r ysgol wedi mynd i'r afael yn ddigon da â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er bod camau priodol wedi'u cymryd i weithio mewn partneriaeth â darparwyr eraill, mae diffygion pwysig yn ansawdd y cwricwlwm o hyd.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Mae'r ysgol wedi dechrau casglu gwybodaeth berthnasol a thystiolaeth uniongyrchol i asesu ei chryfderau a meysydd i'w gwella. Erbyn hyn mae'n dechrau mynd ati'n dda i ddadansoddi gwybodaeth o ddata meincnodi, dadansoddiad gwerth ychwanegol o ganlyniadau arholiadau, arsylwadau o wersi, craffu ar waith disgyblion ac adborth disgyblion. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn sgil hynny yn arfarniad gonest o sefyllfa bresennol yr ysgol, ac mae'n tynnu sylw at lawer o feysydd pwysig i'w gwella. Mae'r meysydd hyn yn cysylltu â chynllun gwella ysgol cryno. Mae'r cynllun gwella'n cynnwys targedau y gellir eu mesur i wella deilliannau yn sylweddol. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar ar y mentrau hyn, ac nid ydynt wedi cael effaith ar gynnydd y disgyblion eto.

Mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth newydd wedi hyrwyddo gwelliannau yn yr addysgu a'r dysgu drwy hyfforddiant mewn swydd ac arsylwadau o wersi, ond megis dechrau cael eu datblygu y mae'r mentrau hyn, ac nid ydynt wedi effeithio ar safonau cyffredinol eto. Mae cyfran gynyddol o athrawon yn cymryd rhan mewn arsylwadau o gymheiriaid, er nad yw'r dull hwn yn cael ei ddefnyddio'n eang.

Mae adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn cynnwys dadansoddiad defnyddiol o ddata cenedlaethol allanol o amrywiaeth o ffynonellau. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae dealltwriaeth fwy sicr gan adrannau erbyn hyn o ran sut mae eu maes pwnc yn perfformio o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae'r rhan fwyaf o adrannau yn monitro ansawdd gwaith ac asesiadau yn nodiaduron y disgyblion. Fodd bynnag, maent yn llunio adroddiadau rhy gadarnhaol ar ansawdd marcio, adborth ac asesu. O ganlyniad nid yw llawer o'r adroddiadau hyn yn nodi meysydd pwysig i'w gwella yn yr addysgu ac yng nghynnydd y disgyblion.

Nid yw llawer o adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn rhoi digon o ystyriaeth i arfarnu ansawdd yr addysgu, y dysgu a'r asesu. Nid yw cynlluniau gwella adrannol yn nodi strategaethau effeithiol na chamau gweithredu i wella'r meysydd pwysig hyn.

Mae athrawon wedi bod yn gysylltiedig â nifer o weithgorau gwahanol, er enghraifft, cwrs dysgu effeithiol sy'n cael ei redeg gan yr awdurdod lleol. Effaith gyfyngedig mae'r rhain wedi'i chael hyd yma, fodd bynnag.

Nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion pwysig o'r arolygiad diwethaf, fel codi safonau a gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Ers penodi'r pennaeth newydd, mae trefniadau cyfathrebu'r ysgol â llawer o randdeiliaid wedi gwella, ac mae'r cyfathrebu a pherthnasoedd â rhieni a darparwyr lleol yn gwella.

Mae dealltwriaeth gliriach gan yr ysgol o'i rôl o fewn partneriaethau ffurfiol, ac mae wedi dechrau defnyddio'r partneriaethau hyn i ganolbwyntio ar wella deilliannau dysgwyr. Mae'r cynllun pontio a ddiweddarwyd yn ddiweddar, a luniwyd gyda'r ysgolion cynradd partner, yn cynnwys ffocws llymach o lawer ar ddatblygu medrau'r disgyblion. Fodd bynnag, mae'r pontio cwricwlaidd wedi bod yn wan hyd yma.

Mae cydweithredu effeithiol gyda choleg addysg bellach lleol ac ysgol uwchradd i ehangu'r ddarpariaeth addysg alwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4 a chryfhau'r trosglwyddo ar gyfer cyrsiau ôl Blwyddyn 11. Mae'r athrawon a'r disgyblion wedi elwa ar fuddsoddiad gwerthfawr mewn cyfleusterau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) o goleg lleol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda â grwpiau amlasiantaeth i ddarparu cymorth defnyddiol i ddisgyblion. Mae'r trefniadau hyn yn effeithio'n dda ar agweddau ar addysg bersonol, cymdeithasol ac iechyd, ac maent wedi cyfrannu at y gwelliannau diweddar mewn presenoldeb.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Mae gan yr ysgol staff addysgu â chymwysterau a phrofiad priodol. Fodd bynnag, nid yw'r staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol mewn ychydig o achosion. O ganlyniad mae ychydig o wersi'n cael eu haddysgu gan athrawon nad ydynt yn arbenigwyr pwnc, ac mewn ychydig o achosion mae hyn wedi effeithio ar gynnydd disgyblion. Mae gormod o ddosbarthiadau rhanedig ac mae ychydig o ddosbarthiadau yng nghyfnod allweddol 3 yn rhy fawr. Mae staff cymorth yn darparu lefelau cymorth da i athawon a disgyblion.

Mae'r ysgol wedi pennu cyllideb ddiffyg o ryw £68,000 ar gyfer y flwyddyn gyfredol, ac mae'n rhagweld diffyg sylweddol pellach dros y ddwy flynedd nesaf. Mae uwch arweinwyr wedi nodi meysydd priodol i wneud arbedion drwy gynllun adfer cyllideb cyfyngedig. Nid yw'r arian a dderbyniwyd drwy grantiau wedi'i gyfeirio er mwyn manteisio i'r eithaf arno, ac mae wedi'i ddefnyddio'n bennaf i wneud iawn am gostau staffio. Gan ystyried y safonau anfoddhaol, mae'r ysgol yn cynnig gwerth anfoddhaol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wedi bod yn wastad yn gyffredinol dros y pum mlynedd diwethaf, er iddo ostwng bum pwynt canran y llynedd. Yn 2012, roedd y dangosydd pwnc craidd islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion, ac roedd yr ysgol yn y chwarter isaf o ysgolion tebyg o ran y meincnodau prydau ysgol am ddim.

Mae perfformiad mewn mathemateg, Saesneg a gwyddoniaeth wedi gwella'n gyffredinol yn ystod y pedair blynedd cyn 2012. Fodd bynnag, bu dirywiad yn y canlyniadau mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn 2012. Yn sgil y canlyniadau mewn Saesneg a gwyddoniaeth roedd yr ysgol yn yr hanner isaf o ysgolion tebyg ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim, ac roedd yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg yn sgil y canlyniadau mewn mathemateg. Ar lefel 6 ac uwch, yn sgil y canlyniadau mewn Saesneg a mathemateg yn 2012, roedd yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim, ac roedd yn y chwarter isaf yn sgil y canlyniadau gwyddoniaeth. Mae cyfran y disgyblion yn cyflawni lefel 7 neu'n uwch mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg yn debyg i ganrannau mewn ysgolion tebyg eraill.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae safonau llefaredd a darllen wedi gwella'n gyffredinol dros y pum mlynedd diwethaf. Fe wnaeth y safonau ddirywio yn 2012, ond maent yn dal yn debyg i gyfartaleddau'r teulu. Mae safonau mewn ysgrifennu wedi cynyddu'n gyflym dros y pedair blynedd diwethaf, ac yn 2012 roeddent ychydig uwchlaw cyfartaledd y teulu.

Daw lleiafrif o ddisgyblion i mewn i'r ysgol ym Mlwyddyn 7 heb y medrau darllen sy'n angenrheidiol i astudio'r cwricwlwm yn llwyddiannus. Dim ond ychydig o'r disgyblion hyn sy'n gwneud cynnydd da erbyn diwedd Blwyddyn 9.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad o ran y trothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, wedi dirywio dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2012, gosododd hyn yr ysgol yn yr hanner isaf o ysgolion tebyg ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wedi dirywio dros y tair blynedd diwethaf, ac ar gyfer y tair blynedd hynny, bu'r ysgol yn yr hanner isaf o ysgolion tebyg ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mae perfformiad o ran y sgôr pwyntiau ehangach wedi'i chapio wedi dirywio dros y tair blynedd diwethaf ac mae ymhell islaw cyfartaleddau'r teulu. Yn 2012, roedd yr ysgol yn y chwarter isaf o ysgolion tebyg ar gyfer y mesur hwn. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyrraedd y trothwy lefel 2 wedi dirywio dros y tair blynedd diwethaf, ac mae'r ysgol wedi aros yn y chwarter isaf o ysgolion tebyg ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim dros y pum mlynedd diwethaf. Mae perfformiad mewn Saesneg ar y trothwy lefel 2 wedi dirywio dros y tair blynedd diwethaf, ac mae'r ysgol wedi aros yn y chwarter isaf o ysgolion tebyg ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim dros y pum mlynedd diwethaf. Mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 2 wedi aros yn weddol gyson dros y tair blynedd diwethaf, ac mae'n gosod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg dros y cyfnod hwn. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth ar lefel 2 wedi dirywio'n fawr dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2011 a 2012, roedd yr ysgol yn y chwarter isaf o gymharu ag ysgolion tebyg ar gyfer y mesur hwn.

Mae perfformiad o ran y trothwy lefel 1 wedi bod yn gyson dros y tair blynedd diwethaf.  Fodd bynnag, mae wedi dirywio o gymharu â phedair neu bum mlynedd yn ôl.  Mae perfformiad o ran y dangosydd hwn yn gosod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg yn gyson.  Mae cynnydd y disgyblion o gyfnod allweddol 2 ac o gyfnod allweddol 3 yn wael o ran y rhan fwyaf o'r dangosyddion.

Fe wnaeth canran y dysgwyr yn gadael yr ysgol heb gymhwyster gynyddu yn 2011, ac eto yn 2012.  Mae'r ffigur hwn yn uwch na chyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru.  Yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae bechgyn yn perfformio'n waeth na merched yn y rhan fwyaf o ddangosyddion.

Mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad wedi gwella'n gyflym er 2009.  Yn 2012, roedd deilliannau ar lefel pump ac uwch yn debyg i gyfartaleddau'r teulu, ond roedd yn yr hanner isaf o gymharu â chanlyniadau ysgolion tebyg ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim.  Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ysgol yn cofrestru nifer fach o ddisgyblion ar gyfer y cwrs Cymraeg llawn, ac yn 2012, llwyddodd pob un o'r disgyblion ar y trothwy lefel 2.  Mae tua hanner y disgyblion yn ennill cymhwyster lefel 2 mewn cwrs byr Cymraeg.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniodd Estyn 229 o ymatebion gan ddysgwyr, ac fe'u dewiswyd ar hap ar draws yr ystod oedrannau.  Er i'r dysgwyr roi ymatebion cadarnhaol neu gadarnhaol iawn i lawer o gwestiynau, nid oedd ychydig o ymatebion mor gadarnhaol â'r rhai gan ddysgwyr mewn ysgolion uwchradd eraill.

Dywed y rhan fwyaf o'r dysgwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, a dywed llawer ohonynt fod ganddynt rywun i droi ato os oes ganddynt unrhyw bryderon.  Credant fod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr o'r farn eu bod yn gwneud yn dda, bod y staff yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac yn eu hannog i ysgwyddo cyfrifoldeb.  Cred y rhan fwyaf bod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer.  Dywed y mwyafrif bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith, sy'n gyfran is na'r hyn a welir mewn ysgolion uwchradd eraill.  Dywed mwyafrif o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 eu bod wedi cael cyngor da wrth ddewis eu cyrsiau.  Mae hon yn gyfran is nag mewn ysgolion uwchradd eraill.  Mae llawer yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer addysg bellach neu gyflogaeth.  Dywed y rhan fwyaf o ddysgwyr bod digon o gyfleoedd ar gael i wneud ymarfer corff rheolaidd, a dywed llawer ohonynt fod yr ysgol yn eu haddysgu i fod yn iach.

Mae llawer o ddysgwyr yn cadarnhau fod aelodau'r staff yn eu trin yn deg a gyda pharch.  Dywed y rhan fwyaf o ddysgwyr bod yr ysgol yn eu helpu i ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill.

Teimla tua hanner y dysgwyr fod yr ysgol yn ystyried eu barnau, ac mae hynny'n gyfran is nag a geir mewn ysgolion uwchradd eraill. Dywed tua hanner y dysgwyr hefyd fod disgyblion yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu bwrw ymlaen â'u gwaith. Mae'r gyfran hon yn is nag mewn ysgolion uwchradd eraill hefyd.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniodd Estyn 131 o ymatebion i'r holiadur i rieni.

Mae'r rhan fwyaf o rieni'n fodlon â'r ysgol, a dywedant ei bod yn cael ei rhedeg yn dda. Dywed y rhan fwyaf ohonynt fod eu plant yn ddiogel a'u bod yn hoffi'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n dweud bod eu plant wedi cael cymorth i ymgartrefu'n dda wrth ddechrau yn yr ysgol. Dywed y rhan fwyaf hefyd fod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach. Mae'r rhan fwyaf o'r farn fod ystod dda o weithgareddau'n cael ei chynnig, sy'n gyfran is na'r hyn a geir mewn ysgolion uwchradd eraill. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â mynd at yr ysgol i drafod materion am addysg a lles eu plentyn.

Cred y rhan fwyaf o rieni fod eu plant yn gwneud cynnydd da. Mae'r rhan fwyaf o'r farn fod disgwyliadau'r staff a'r addysgu yn dda. Teimla'r rhan fwyaf o rieni fod eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol lle bo angen, a bod llawer o'r staff yn trin eu plant yn deg a gyda pharch. Cred y rhan fwyaf o rieni fod yr ysgol yn helpu'u plant i aeddfedu a'i bod yn paratoi eu plant yn dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg a gwaith.

Teimla llawer o rieni eu bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plant, a dywedant fod gwaith cartref yn atgyfnerthu'r dysgu. Cred llawer o rieni fod y disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol, er bod hyn islaw'r cyfartaledd o gymharu â'r ymatebion o ysgolion eraill.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Robert Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Peter Harris | Arolygydd Tîm |
| Gareth Wyn Jones | Arolygydd Tîm |
| Bethan Whittall | Arolygydd Tîm |
| Justine Barlow | Arolygydd Lleyg |
| Steven Pringle | Arolygydd Cymheiriaid |
| Amanda Harrison | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru.  Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion.  Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion |

| | |
|---|---|
| | tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |